Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

# Canllawiau ar gwblhau adolygiad o ansawdd y gofal

OGL © Crown copyright 2024 WG38385 Digital ISBN 978-1-83876-633-7

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Adolygiad o ansawdd y gofal ........ 5
3. Yr adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ........ 9
4. Atodiad A – Deddfwriaeth berthnasol ........ 11
5. Atodiad B – Templed adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ........ 12

# 1. Cyflwyniad

## Diben y canllawiau

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau i ddarparwyr ar gynnal adolygiad effeithiol o ansawdd y gofal er mwyn ysgogi gwelliannau a sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn darparu fframwaith i adrodd ar yr adolygiad o ansawdd y gofal.

1.2 Anelir y canllawiau hyn at wasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016). Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau cartrefi gofal
- gwasanaethau llety diogel
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau cymorth cartref
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion
- gwasanaethau eirioli
- Gwasanaethau Preswyl Ysgol Arbennig

1.3 Dylai'r gwaith o gynnal adolygiad o ansawdd y gofal fod yn rhan o ddiwylliant o wella ansawdd mewn unrhyw wasanaeth rheoleiddiedig. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offer a dulliau mewn modd systematig i asesu ansawdd y gofal a'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'u gwella. Ni ddylai hyn fod yn ymarfer untro, ond yn **gylch gwella parhaus** sy'n canolbwyntio ar wella ar bob lefel.

## Y cyd-destun cyfreithiol

1.4 Mae Deddf 2016 yn gosod ansawdd a gwella gwasanaethau wrth wraidd rheoleiddio, gan roi mwy o ddiogelwch i'r rhai sydd ei angen, a sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ymgorffori hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yn y gyfraith.

1.5 Mae'r Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2016 (gweler Atodiad A) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth[1][2] a ddarperir gan y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys ceisio barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, yr awdurdod perthnasol, lle y bo'n briodol (er enghraifft comisiynwyr gwasanaethau, yr awdurdod lleoli, awdurdod yr ardal neu'r awdurdod lleol sydd wedi trefnu'r cymorth), a'r staff am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

1.6 Mae gan unigolyn cyfrifol penodedig y darparwr gwasanaeth hefyd gyfrifoldeb cyfreithiol cyfatebol am sefydlu system i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, a'i chynnal. Gelwir hyn yn 'adolygiad o ansawdd y gofal'[3]. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad mor aml ag sydd angen, neu o leiaf bob chwe mis.

1.7 Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth, rhaid i'r unigolyn cyfrifol[4] baratoi adroddiad (a elwir yn adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal) sy'n cynnwys asesiad o safon y gofal a'r cymorth a roddir ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

1.8 Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cynlluniau i wella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried barn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw a'r adroddiad a baratowyd gan yr unigolyn cyfrifol.

**Datganiadau Blynyddol**

1.9 Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gyflwyno datganiad blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a nodir yn adran 10 o Ddeddf 2016 a'r rheoliadau ar gyfer datganiadau blynyddol a wneir o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys darparu datganiad o gydymffurfedd â’r gofynion o ran y safonau gofal a chymorth a bennir yn y rheoliadau. Cyfrifoldeb yr unigolyn cyfrifol fydd paratoi'r datganiad hwn. Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol ystyried canlyniad yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal, gan felly

[1] O ran gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig, mae unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' yn y canllawiau hyn yn golygu'r 'eiriolaeth a roddir'.
[2] O ran gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig, mae unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' yn y canllawiau hyn yn golygu 'cymorth'.
[3] O ran gwasanaeth eirioli rheoleiddiedig a gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, gelwir hyn yn 'adolygiad o ansawdd y gofal'.
[4] Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os mai unigolyn yw'r darparwr gwasanaeth.

sefydlu cyswllt clir rhwng yr adolygiad o ansawdd y gofal a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth.

## 2 Adolygiad o ansawdd y gofal

**Pwy sy'n gyfrifol am yr adolygiad o ansawdd y gofal**?

2.1 Mae llinellau atebolrwydd, cyfrifoldeb a dirprwyo clir rhwng y darparwr gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr[5].

2.2 Mae'r darparwr gwasanaeth yw gyfrifol am wneud y canlynol: llywio gwelliannau i'r gwasanaeth; sefydlu system i roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion sefydliadol, proffesiynol a chyfreithiol, yn ogystal â'i ddatganiad o ddiben; a chefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ganlyniadau o ran sicrhau ansawdd wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau ar gyfer gwella.

2.3 Yr unigolyn cyfrifol sy'n atebol am ansawdd a chydymffurfedd y gwasanaeth ac sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, ei ansawdd, ei ddiogelwch a'i effeithiolrwydd. Cyfrifoldeb yr unigolyn cyfrifol hefyd yw paratoi adroddiad[6] ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal.

2.4 Gall yr unigolyn cyfrifol ddirprwyo rhai o'i weithgareddau i unigolion eraill yn y gwasanaeth, er enghraifft y rheolwr. Fodd bynnag, dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y gwaith o ddadansoddi archwiliadau ac adroddiadau yn glir, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn llywio'r casgliadau a'r argymhellion ar gyfer gwella.

2.5 Y rheolwr sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ac am sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion sefydliadol, proffesiynol a rheoliadol. Mae hyn yn cynnwys mynd ar drywydd camau perthnasol sy'n deillio o'r adolygiad o ansawdd y gofal.

### Yr hyn y mae adolygiad effeithiol o ansawdd y gofal yn ei gynnwys

2.6 Nod adolygiad effeithiol o ansawdd y gofal yw pennu i ba raddau y mae'r bobl sy'n cael gwasanaethau yn arfer eu hawliau ac yn gallu cyflawni eu canlyniadau personol drwy'r gwasanaeth a ddarperir. Dylai ddangos yn glir sut y mae'r gwasanaeth yn cyflawni hyn a chynnwys yr elfennau canlynol:

- pennu safonau ansawdd mewnol
- casglu gwybodaeth
- cynnal dadansoddiad

[5] Y rheolwr a benodwyd gan yr uniogolyn cyfrifol
[6] Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os mai unigolyn yw'r darparwr gwasanaeth.

- paratoi adroddiadau a chynllunio camau gweithredu

2.7 Ni allwn orbwysleisio pa mor bwysig ydyw i'r darparwr gwasanaeth osod safonau ansawdd, dadansoddi'r wybodaeth a gesglir a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth drwy gynllunio camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

*Pennu safonau ansawdd mewnol*

2.8 Mae safonau ansawdd mewnol yn ddatganiadau penodol sy'n pennu i ba raddau y mae gweithgaredd/cam gweithredu yn digwydd, ynghyd â pha mor dda, pa mor aml a pha mor gyflym y mae'n digwydd. Maent yn egluro'r hyn y mae gan bobl yr hawl i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth. Dylai'r darparwr gwasanaeth ddisgrifio'r safonau ansawdd y mae'n anelu at eu cyrraedd ac sy'n dangos effaith ei wasanaeth ar y bobl sy'n ei ddefnyddio.

2.9 Dylai'r safonau hyn fod yn seiliedig ar y gofynion rheoliadol perthnasol, ond ni ddylent fod yn gyfyngedig iddynt. Dylai'r safonau helpu'r darparwr gwasanaeth i anelu at ragoriaeth ac i adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda i'r gwasanaeth.

2.10 Dylai'r darparwr gwasanaeth hefyd ddisgrifio'r dangosyddion/meincnodau perfformiad a fydd yn dangos i ba raddau y mae'n cyrraedd ei safonau ansawdd.

*Casglu gwybodaeth*

2.11 Dylai darparwyr gwasanaethau ddatblygu neu fabwysiadu systemau a phrosesau a all gasglu gwybodaeth am eu safonau ansawdd a'u helpu i ddeall sut y mae eu gwasanaeth wedi cyfoethogi bywydau'r bobl dan sylw a/neu eu helpu i gyflawni eu canlyniadau o ran llesiant. Gallai hyn gynnwys:

- ystyried canlyniad ymgysylltu â phobl drwy gyfrwng holiaduron, arolygon ac adolygiadau
- cynnal cofnodion cywir, gan gynnwys canmoliaethau, digwyddiadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer hysbysu AGC
- cofnodi canlyniadau unrhyw gamau i wella'r gwasanaeth neu unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn y gwasanaeth
- cofnodi'r ffordd y gwrandawyd ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth yn sgil hynny
- cofnodi'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cynnwys y bobl sy'n ei ddefnyddio wrth fynd ati i gynllunio a gwella
- ystyried canlyniadau unrhyw archwiliadau

- monitro lefelau staffio, lefelau boddhad staff a nodi unrhyw faterion penodol o ran staffio, er enghraifft swyddi gwag, materion yn ymwneud â'r rota, argaeledd ac ansawdd hyfforddiant, trefniadau cytundebol, cofrestru proffesiynol, canlyniadau goruchwyliaeth a lefelau salwch
- adolygu canlyniadau mewn perthynas â gwaith tracio, ymchwilio a monitro digwyddiadau, er enghraifft digwyddiadau diogelu a chwynion
- canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr neu gomisiynwyr.

2.12 Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau'n ceisio gwybodaeth o nifer o ffynonellau er mwyn sicrhau bod eu casgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i thriongli.

*Cynnal dadansoddiad*

2.13 Dylai adolygiad effeithiol ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r gwasanaeth wedi perfformio, gan ystyried tri chwestiwn allweddol:

- Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn dangos tystiolaeth o hynny?
- Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?
- Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn i’r gwelliannau/datblygiadau fod yn llwyddiannus, a sut y bydd hyn yn cael ei fesur?

2.14 Er mwyn ateb y tri chwestiwn allweddol hyn, dylai'r darparwr gwasanaeth ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd er mwyn dod i gasgliadau am berfformiad y gwasanaeth a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Dylai hyn gynnwys y canlynol:

- cymariaethau â chanlyniadau adolygiadau blaenorol o ansawdd y gofal
- unrhyw batrymau neu dueddiadau a nodwyd
- unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg
- unrhyw wersi a ddysgwyd.

2.15 Dylai'r dadansoddiad alluogi'r darparwr gwasanaeth i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r meysydd lle mae bylchau. Bydd hyn yn llywio argymhellion ar gyfer llywio gwelliant ar draws y gwasanaeth.

*Paratoi Adroddiadau a Chynllunio Camau Gweithredu*

2.16 Dylai'r adolygiad ddwyn ynghyd mewn un adroddiad yr holl wybodaeth sydd ar gael o systemau adolygu ansawdd y darparwr gwasanaeth (mewn perthynas â'r safonau ansawdd a bennwyd) a'i gasgliadau am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Mae Pennod 3 yn cynnig rhagor o ganllawiau ar yr adroddiad.

2.17 Dylai'r darparwr gwasanaeth geisio llywio gwelliannau o ran perfformiad a chanlyniadau, gan gynnwys yr agweddau hynny ar y gwasanaeth sy'n gweithio'n dda, er mwyn iddo anelu at ragoriaeth.

2.18 Dylai'r darparwr gwasanaeth gymryd camau i wella pob agwedd ar ei wasanaeth. Dylai'r camau gweithredu sy'n ofynnol gael eu nodi mewn cynllun gweithredu clir, gan gynnwys;

- y camau penodol a flaenoriaethir gan y darparwr gwasanaethau (dylai'r rhain fod yn seiliedig ar ganlyniadau)
- yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r cam gweithredu
- y swyddog arweiniol enwebedig sy'n gyfrifol am gyflawni'r cam gweithredu a nodwyd
- y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur cynnydd neu welliannau.

2.19 Dylai'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro'r cynllun gweithredu'n effeithiol a sicrhau bod swyddogion arweiniol yn atebol am y cynnydd a wneir.

## 3 Yr adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal

3.1 Mae'n debyg y bydd gan yr adroddiad hwn gynulleidfaoedd gwahanol a fydd â diddordeb penodol yng nghynnwys yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- y Bwrdd, y cyfarwyddwyr, y tîm rheoli a'r staff
- aelodau o'r cyhoedd a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n dymuno ei ddefnyddio, a/neu eu teuluoedd neu gynrychiolwyr
- comisiynwyr gwasanaethau neu awdurdodau sy'n prynu ac yn monitro'r gofal cymdeithasol a roddir
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Fodd bynnag, **at ddefnydd y darparwr gwasanaeth y mae'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn bennaf.** Nid oes angen i'r darparwr gwasanaeth anfon copi o'r adroddiad at gomisiynwyr nac AGC oni ofynnir iddynt wneud hynny (er enghraifft fel rhan o arolygiad)

3.2 Mae'r adroddiad yn nodi perfformiad y gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella. Dylai ddangos gallu'r darparwr gwasanaeth i fyfyrio ar ei berfformiad ei hun ac ymateb i'w ganfyddiadau. Dylai'r adroddiad nodi'r canlynol:

- unrhyw safonau ansawdd a bennwyd ar gyfer y gwasanaeth
- unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt ynglŷn ag i ba raddau y mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu arfer eu hawliau ac yn cyflawni eu canlyniadau personol, ynghyd â'r dystiolaeth ategol
- unrhyw faterion a godwyd gyda'r gwasanaeth a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth
- unrhyw welliannau y dymunir i'r gwasanaeth eu gwneud a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn llywio'r gwelliannau hyn.

3.3 Rydym wedi datblygu strwythur adroddiad y gall darparwyr gwasanaethau ddymuno ei ddilyn. Darperir templed yn Atodiad B. Mae hwn yn rhannu'r adroddiad yn bedwar maes llesiant allweddol[7].

*1)* Mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth, a bod cyfleoedd ar gael iddynt.

[7]Yn seiliedig ar fframwaith canlyniadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt

*2)* Mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus. I blant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol.

*3)* Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

*4)* Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cynnal eu llesiant ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol yn y ffordd orau posibl (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig).

3.4 Er nad oes unrhyw ofynion i ddilyn y strwythur hwn, gall gwneud hynny helpu'r unigolyn cyfrifol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Er mwyn helpu i baratoi'r adroddiad rydym hefyd wedi nodi rhai enghreifftiau i'w hystyried o dan dri chwestiwn allweddol (a nodir ym mharagraff 2.12). **Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr na chyfarwyddol, ac anogir unigolion cyfrifol i ystyried enghreifftiau eraill sy'n berthnasol i'w gwasanaeth wrth baratoi'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal.**

3.5 Mae templed yr adroddiad yn cynnwys crynodeb ar ddiwedd pob maes llesiant allweddol. Gall unigolion cyfrifol ddefnyddio'r crynodebau hyn fel sail i'w datganiad cydymffurfio i'w gynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth.

**Atodiad A**

## Deddfwriaeth berthnasol

| | |
|---|---|
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1097/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/163/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/165/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) 2019 | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/169/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) 2019 | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/762/contents/made/welsh |

| | |
|---|---|
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 | legislation.gov.uk/wsi/2023/1327/contents/made/welsh |
| Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024 | The Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) (Amendment) Regulations 2024 (legislation.gov.uk) |

**Atodiad B**

## Templed adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal

| **1)** ***Mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth, a bod cyfleoedd ar gael iddynt.*** |
|---|
| **Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r dystiolaeth o hynny.**<br>*Dylai'r adran hon ystyried crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys y dulliau a ddefnyddir i gynnwys y bobl yn eu gofal a'u cymorth a chrynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ynghyd â'u perthnasau neu eu cynrychiolwyr. Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol fel tystiolaeth ategol. Crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu arfer eu hawliau.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Crynodeb o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn helpu i ymgysylltu â'r rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.*<br>• *Crynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gwrando arnynt ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau, ynghyd â'u safbwyntiau am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Dylid hefyd gynnwys crynodeb o safbwyntiau eu perthnasau a/neu gynrychiolwyr, gofalwyr ac eiriolwyr, lle y bo'n berthnasol.*<br>• *Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, er enghraifft yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, y gwasanaethau addysg, fel y bo'n briodol.*<br>• *Perfformiad mewn perthynas â safonau ansawdd.*<br>• *Tystiolaeth yn dangos i ba raddau y caiff hawliau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu harddel, fel rhoi llais i'r bobl, y gallu i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac ati a sut yr ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.*<br>• *Unrhyw gamau a gymerwyd i wella canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.*<br>• *Asesu ansawdd cynlluniau o gymharu â'r gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth; a ydynt yn adlewyrchu dewis a chyfleoedd?*<br>• *Effeithiolrwydd y ffordd y mae'r staff yn ymgysylltu â'r rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Gallai hyn hefyd gynnwys data mewn perthynas â lefelau staffio, niferoedd y staff sy'n cael hyfforddiant perthnasol, y canlyniadau sy'n deillio o werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant perthnasol, a chanlyniadau sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu.*<br>• *Effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw.* |

| |
|---|
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?**<br>*Dylai'r adran hon gynnwys y meysydd i'w gwella a nodwyd drwy ddadansoddi gwaith ymgysylltu, adborth, gwaith monitro, adroddiadau gan AGC neu reoleiddwyr eraill.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd drwy waith dadansoddi, gan gynnwys adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.*<br>• *Gwella gwaith ymgysylltu a'r ffordd y caiff y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cynnwys.*<br>• *Gwella canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy roi mwy o ddewis a rheolaeth iddynt o ran y gofal a'r cymorth a gynigir iddynt.*<br>• *Adeiladu ar brofiad ac arbenigedd y staff presennol, gwella lefelau staffio, darparu hyfforddiant perthnasol neu sesiynau goruchwylio staff.*<br>• *Gwella diwylliant y gwasanaeth er mwyn hwyluso canlyniadau gwell i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.*<br>• *Gwella a datblygu diwylliant cadarnhaol a thosturiol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.* |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur?**<br>*Dylai'r adran hon gynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau penodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant, yr amserlenni a nodwyd, y swyddog arweiniol, a'r dangosyddion perfformiad i fesur gwelliant.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Newid y safonau ansawdd perthnasol er mwyn adeiladu ar yr arferion presennol a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth*<br>• Ffyrdd arloesol ychwanegol o sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed<br>• *Defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau wrth ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a chasglu eu barn.*<br>• *Cynnig mwy o gyfleoedd i drafod yr hyn sy'n bwysig i'r bobl.*<br>• *Adolygu a diweddaru polisïau, gweithdrefnau ac arferion perthnasol.* |
| **Crynodeb** |
| *Mae'r adran hon yn grynodeb lefel uchel o'r pwyntiau allweddol. Dylai grynhoi i ba raddau y mae'r bobl yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, bod ganddynt* |

*ddewis o ran eu gofal a'u cymorth, a bod cyfleoedd ar gael iddynt. Dylai hyn ganolbwyntio ar y canlyniadau yn hytrach na'r systemau a'r prosesau. Nid oes angen nodi'r dystiolaeth ategol yma; dylid gwneud hynny yn yr adrannau perthnasol uchod. Ni ddylai'r adran hon fod yn fwy na 500 o eiriau.*

| |
|---|
| ***2) Mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus. I blant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol.*** |
| **Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut rydym yn dangos tystiolaeth o hynny?**<br>*Dylai'r adran hon ystyried crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu safbwyntiau, ynghyd â chrynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol. Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol fel tystiolaeth ategol. Crynodeb o'r ffordd y mae pobl yn cael gafael ar gymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol a'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi annibyniaeth y bobl.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Crynodeb o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i gefnogi pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gynnal eu hiechyd a'u llesiant.*<br>• *Crynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynglŷn â pha mor hapus y maent ac i ba raddau y maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus. Dylid hefyd gynnwys crynodeb o safbwyntiau eu perthnasau a/neu gynrychiolwyr, gofalwyr ac eiriolwyr, lle y bo'n berthnasol.*<br>• *Effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran cefnogi annibyniaeth y bobl, gan eu galluogi i gael rheolaeth dros eu bywyd bob dydd a, lle y bo'n berthnasol, gymryd rhan mewn addysg/gwaith, a sut y caiff risgiau eu hystyried.*<br>• *Tystiolaeth i ddangos i ba raddau y mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu arfer eu hawliau, er enghraifft i ba raddau y maent yn cael cymorth i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill, ac ati.*<br>• *Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill am effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran sicrhau bod y bobl yn gallu cael cymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol, er enghraifft deintyddion, therapyddion ymddygiad, seicolegwyr, offthalmolegwyr; ac o ran sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu (lle y bo'n berthnasol).*<br>• *Effeithiolrwydd y staff o ran helpu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Gallai hyn hefyd gynnwys data mewn perthynas â lefelau staffio, niferoedd y staff sy'n cael hyfforddiant perthnasol, y canlyniadau sy'n deillio o werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant perthnasol, a chanlyniadau sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu.* |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?** |

| |
|---|
| *Dylai'r adran hon ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd drwy ddadansoddi adborth, gwaith monitro, adroddiadau gan AGC neu reoleiddwyr eraill, unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a chamau heb eu cymryd.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd drwy waith dadansoddi, gan gynnwys adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda*<br>• *Cyfleoedd i wella canlyniadau'r bobl drwy sicrhau trefniadau cyfathrebu a chydweithio mwy effeithiol â gweithwyr proffesiynol eraill.*<br>• *Gwella canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy eu cynnwys a'u cefnogi'n well mewn perthynas â'u hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus.*<br>• *Adeiladu ar brofiad ac arbenigedd y staff presennol, gwella lefelau staffio, darparu hyfforddiant perthnasol neu sesiynau goruchwylio staff.* |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur?**<br>*Dylai'r adran hon gynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau penodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant, yr amserlenni a nodwyd, y swyddog arweiniol, a'r dangosyddion perfformiad i fesur gwelliant.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• Newid y safonau ansawdd perthnasol er mwyn adeiladu ar yr arferion presennol a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth<br>• *Defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau i sicrhau bod canlyniadau llesiant y bobl yn cael eu cyflawni'n effeithiol.*<br>• *Cynnig mwy o gyfleoedd i bobl fod yn annibynnol.*<br>• *Adolygu a diweddaru polisïau, gweithdrefnau ac arferion perthnasol.* |
| **Crynodeb** |
| *Mae'r adran hon yn grynodeb lefel uchel o'r pwyntiau allweddol. Dylai grynhoi i ba raddau y mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus. I blant, dylai hyn hefyd grynhoi i ba raddau maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth i gynnal eu datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Dylai hyn ganolbwyntio ar y canlyniadau yn hytrach na'r systemau a'r prosesau. Nid oes angen nodi'r dystiolaeth ategol yma; dylid gwneud hynny yn yr adrannau perthnasol uchod. Ni ddylai'r adran hon fod yn fwy na 500 o eiriau.* |

| **3) *Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod*** |
| --- |
| **Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r dystiolaeth o hynny?**<br>*Dylai'r adran hon ystyried crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith; crynodeb o safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth; nifer yr atgyfeiriadau, ac ati. Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol fel tystiolaeth ategol.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Crynodeb o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed.*<br>• *Crynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynglŷn ag i ba raddau y maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn. Dylid hefyd gynnwys crynodeb o safbwyntiau eu perthnasau a/neu gynrychiolwyr, gofalwyr ac eiriolwyr, lle y bo'n berthnasol.*<br>• *Effeithiolrwydd atgyfeiriadau diogelu a'r cymorth a roddir i'r bobl yr effeithir arnynt. Gallai hyn gynnwys data mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau a wnaed, canlyniadau ymchwiliadau, nifer y digwyddiadau chwythu'r chwiban, atgyfeiriadau am awdurdod ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid; mynd ar drywydd canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i hynny.*<br>• *Tystiolaeth i ddangos i ba raddau y caiff hawliau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys eu hawliau dynol, eu parchu, eu cynnal a'u hamddiffyn rhag gwahaniaethu, ac ati*<br>• *Effeithiolrwydd y ffordd y mae'r gwasanaeth yn rhoi adborth yn unol ag oedran a lefel yr unigolyn dan sylw.*<br>• *Effeithiolrwydd y staff o ran cefnogi'r bobl hynny y mae materion diogelu yn effeithio arnynt. Gallai hyn hefyd gynnwys data mewn perthynas â lefelau staffio, niferoedd y staff sy'n cael hyfforddiant perthnasol, y canlyniadau sy'n deillio o werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant perthnasol, a chanlyniadau sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu.* |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?**<br>*Dylai'r adran hon ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd drwy ddadansoddi adborth, gwaith monitro, adroddiadau gan AGC neu reoleiddwyr eraill, unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a chamau heb eu cymryd.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:* |

- *Unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd drwy waith dadansoddi, gan gynnwys adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.*
- *Gwella canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy sicrhau trefniadau gweithio mwy effeithiol gydag asiantaethau partner a gweithwyr proffesiynol eraill.*
- *Gwella'r adborth a roddir i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n gwneud cwyn.*
- *Adeiladu ar brofiad ac arbenigedd y staff presennol, gwella lefelau staffio, darparu hyfforddiant perthnasol neu sesiynau goruchwylio staff.*
- *Manylion o ran sut mae'r gwasanaeth yn annog diwylliant teg a chynhwysol ac yn rhoi dull seiliedig ar hawliau ar waith lle caiff hawliau'r unigolyn, gan gynnwys ei hawliau dynol, eu parchu.*

**Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur?**

*Dylai'r adran hon gynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau penodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant, yr amserlenni a nodwyd, y swyddog arweiniol, a'r dangosyddion perfformiad i fesur gwelliant.*

*Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*

- *Newid y safonau ansawdd perthnasol er mwyn adeiladu ar yr arferion presennol a helpu i wella'r gwasanaeth, er enghraifft mewn perthynas â chefnogi hawliau pobl a gwneud cwyn neu fynegi pryder.*
- *Cynnig mwy o gyfleoedd i'r staff gael hyfforddiant ar chwythu'r chwiban, diogelu ac amddiffyn plant.*
- *Adolygu a diweddaru polisïau, gweithdrefnau ac arferion perthnasol, er enghraifft y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu, er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli'n briodol.*

**Crynodeb**

*Mae'r adran hon yn grynodeb lefel uchel o'r pwyntiau allweddol. Dylai grynhoi i ba raddau y mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Dylai hyn ganolbwyntio ar y canlyniadau yn hytrach na'r systemau a'r prosesau. Nid oes angen nodi'r dystiolaeth ategol yma; dylid gwneud hynny yn yr adrannau perthnasol uchod. Ni ddylai'r adran hon fod yn fwy na 500 o eiriau.*

| |
|---|
| **4)** ***Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cynnal eu llesiant ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol yn y ffordd orau posibl (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig).*** |
| **Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r dystiolaeth o hynny?**<br>*Dylai'r adran hon ystyried crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith, gan gynnwys y gallu i fanteisio ar y gymuned leol; sut y caiff preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd eu cynnal; a chrynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd am unrhyw newidiadau i'r amgylchedd. Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol fel tystiolaeth ategol.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Crynodeb o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn cefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i fyw mewn amgylchedd diogel ac addas.*<br>• *Effeithiolrwydd unrhyw waith ym maes iechyd a diogelwch a wnaed/sydd yn yr arfaeth. Sut mae hyn wedi dangos canlyniadau gwell i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth?*<br>• *Safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r gwasanaeth yn cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u cyfrinachedd.*<br>• *I ba raddau y mae'r bobl yn gallu manteisio ar y gymuned leol a chyfleusterau sy'n ymwneud ag addysg, iechyd, cyflogaeth a hamdden mewn modd effeithiol.*<br>• *Tystiolaeth i ddangos i ba raddau y mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu arfer eu hawliau, er enghraifft i ba raddau y maent yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac ati.*<br>• *Safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynglŷn â pha mor dda y maent yn gallu personoli eu hamgylchedd a pha mor dda yr ymgynghorir â nhw ynghylch newidiadau i'r amgylchedd sy'n effeithio arnynt. Rhowch enghreifftiau yn dystiolaeth o hynny.*<br>• *Effeithiolrwydd y staff o ran helpu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i fod yn annibynnol, i gyfrannu at gymdeithas ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Gallai hyn hefyd gynnwys data mewn perthynas â lefelau staffio, niferoedd y staff sy'n cael hyfforddiant perthnasol; y canlyniadau sy'n deillio o werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant perthnasol; canlyniadau sesiynau goruchwylio a/neu arfarnu.* |
| **Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?**<br>*Dylai'r adran hon ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd drwy ddadansoddi adborth, gwaith monitro, adroddiadau gan AGC neu reoleiddwyr eraill, unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a chamau heb eu cymryd.* |

| |
|---|
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd drwy waith dadansoddi, gan gynnwys adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.*<br>• *Mwy o gyfleoedd i fanteisio ar y gymuned leol a'i gwasanaethau.*<br>• *Gwella canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy eu cynnwys yn fwy yn y newidiadau a wneir i'r adeiladau, y gosodiadau a'r cyfleusterau, neu'r gwaith o'u cynnal a'u cadw.*<br>• *Ffyrdd o wella lefelau staffio, darpariaeth hyfforddiant perthnasol neu sesiynau goruchwylio staff.*<br>• *Adeiladu ar brofiad ac arbenigedd y staff presennol, gwella lefelau staffio, darparu hyfforddiant perthnasol neu sesiynau goruchwylio staff.* |
| **Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur?**<br>*Dylai'r adran hon gynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau penodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant, yr amserlenni a nodwyd, y swyddog arweiniol, a'r dangosyddion perfformiad i fesur gwelliant.* |
| *Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yma yn cynnwys:*<br>• *Newid y safonau ansawdd perthnasol er mwyn adeiladu ar yr arferion presennol a helpu i wella'r gwasanaeth, er enghraifft mewn perthynas â'r seilwaith a'r amgylchedd.*<br>• *Cynnig mwy o gyfleoedd i fanteisio ar y gymuned leol.*<br>• *Defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau i wella'r cyfathrebu â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau eu cyflawni.*<br>• *Adolygu a diweddaru polisïau, gweithdrefnau ac arferion perthnasol.* |
| **Crynodeb** |
| *Mae'r adran hon yn grynodeb lefel uchel o'r pwyntiau allweddol. Dylai grynhoi i ba raddau y mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Dylai hyn ganolbwyntio ar y canlyniadau yn hytrach na'r systemau a'r prosesau. Nid oes angen nodi'r dystiolaeth ategol yma; dylid gwneud hynny yn yr adrannau perthnasol uchod. Ni ddylai'r adran hon fod yn fwy na 500 o eiriau.* |